**CYD-BWYLLGOR ARDAL O HARDDWCH NATURIOL EITHRIADOL BRYNIAU CLWYD A DYFFRYN DYFRDWY**

Cofnodion cyfarfod o’r Cyd-bwyllgor Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy a gynhaliwyd yn COUNTY HALL, MOLD, FLINTSHIRE, Dydd Gwener, 8 Mawrth 2019 am 10.00 am.

**YN BRESENNOL**

Y Cynghorwyr Tony Thomas, Councillor Billy Mullin on behalf of Derek Butler and Carolyn Thomas (Flintshire County Council)

**HEFYD YN BRESENNOL**

Howard Sutcliffe (AONB Officer), David Shiel (Assistant AONB Officer), Michael Skuse (AONB Partnership and Friends of AONB), Paul Mitchell (Natural Resources Wales), Paula O’Hanlon (Senior Finance Officer, DCC), Huw Rees (Head of Countryside & Heritage Services DCC), Gareth O Williams (Finance Manager, DCC), Gary Williams (Head of Legal, HR & Democratic Services, DCC), Anna Irwin (Senior Conservation & Environment Officer, WCBC), Martin Howarth (Rights of Way, WCBC), Kate Thomson (Our Picturesque Landscape Partnership Officer) and Sharon Thomas (Democratic Services Officer, FCC)

**1 CYFLWYNIADAU, YMDDIHEURIADAU A DATGAN CYSYLLTIAD**

Cafwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr: Hugh Jones (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam), Bobby Feeley (Cyngor Sir Ddinbych), Derek Butler a Carolyn Thomas (Cyngor Sir y Fflint) a Mr Tom Woodall (Cyngor Sir y Fflint)

Ni chafodd unrhyw gysylltiad ei ddatgan.

**2 COFNODION CYFARFOD Y CYD-BWYLLGOR**

Cyflwynwyd cofnodion y Cyd-bwyllgor a gynhaliwyd ar 23 Tachwedd 2018.

Cywirdeb

Eitem 7 – Eglurwyd na phenodwyd i'r Cynllun Rheoli Cynaliadwy ar gyfer Anifeiliaid Pori eto.

Materion yn Codi

Eitem 3 – O ran y fenter Awyr Dywyll, adroddwyd bod Swyddog Awyr Dywyll (Dani Robertson) wedi’i phenodi drwy’r bartneriaeth gyda Pharc Cenedlaethol Eryri, AHNE Ynys Môn ac AHNE Llŷn. Mae’r swydd yn cynnwys cyd-drefnu digwyddiadau ac ymgysylltu â busnesau, yn ogystal â datblygu un dynodiad Awyr Dywyll posib ar draws ardaloedd gwarchodedig Gogledd Cymru.

Eitem 3 – Bydd adroddiad sy'n ystyried y gwersi a ddysgwyd o dân mynydd Llantysilio yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod arbennig Pwyllgor Craffu Cymunedau Cyngor Sir Ddinbych ar 20 Mawrth 2019 ym Mhafiliwn Llangollen. Cafwyd manylion fformat y cyfarfod diwrnod llawn, fydd ar agor i'r cyhoedd, gan Bennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd CSDd (GW).

Er i'r tân hwn gael ei gynnau y tu allan i'r tymor llosgi a ganiateir (Hydref i Fawrth yng Nghymru), roedd tîm yr AHNE hefyd wedi ymgysylltu â'r Gwasanaeth Tân mewn perthynas â thanau diweddar yng Nglyndyfrdwy a Choed Hyrddin yng Nglyn y Groes.

Eitem 7 - Cafwyd eglurhad gan Swyddog Cynorthwyol yr AHNE am rai o'r safleoedd ar draws Gogledd Ddwyrain Cymru a ddylai elwa ar y Cynllun Rheoli Cynaliadwy ar gyfer Anifeiliaid Pori. Dywedodd y byddai gwybodaeth fwy manwl a diweddar am gynnydd y cynllun ar gael i'w rhannu mewn cyfarfod yn y dyfodol.

**PENDERFYNWYD:**
**Yn amodol ar y diwygiad, derbyn cofnodion cyfarfod y Cyd-bwyllgor a gynhaliwyd ar 23 Tachwedd 2018 fel cofnod cywir.**

## 3 COFNODION DRAFFT PROSIECT EIN TIRWEDD HARDD

Derbyniwyd cofnodion drafft cyfarfod mis Ionawr Grŵp Llywio Prosiect Ein Tirwedd Hardd.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd David Kelly, cafodd aelodaeth y Grŵp Llywio ei egluro gan Swyddog Cynorthwyol yr AHNE (DS).

**PENDERFYNWYD:**
**Derbyn cofnodion cyfarfod y Grŵp Llywio a gynhaliwyd ar 16 Ionawr 2019.**

## 4 CYLLIDEB Y CYD-BWYLLGOR

Cyflwynodd Rheolwr Cyllid CSDd (GOW) yr adroddiad ar sefyllfa derfynol ddisgwyliedig cyllideb refeniw'r Cyd-bwyllgor ar gyfer 2018/19. Dosbarthwyd gwybodaeth ychwanegol na chynhwyswyd yn yr adroddiad a argraffwyd.

Parhawyd i reoli'r gyllideb yn dda, gyda thanwariant bychan wedi'i ragamcan ar gyfer diwedd y flwyddyn. Y prif reswm am hyn oedd swydd wag sydd bellach wedi'i llenwi. Croesawodd y Pwyllgor y newyddion bod y tri Awdurdod wedi ymrwymo i'r un lefel o gyllid ar gyfer 2019/20.

**PENDERFYNWYD:**
**Nodi'r rhagolwg diweddaraf o'r sefyllfa ariannol derfynol ar gyfer 2018/19, ynghyd â'r cynnydd yn erbyn y gyllideb y cytunwyd arni.**

## 5 ADRODDIAD CYTUNDEB CYFREITHIOL

Cyflwynodd Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd CSDd (GW) adroddiad oedd yn ystyried y Cytundeb Cyfreithiol ar gyfer y Cyd-bwyllgor, sy'n nodi diben, Cylch Gorchwyl a threfniadau allweddol rhwng y tri Awdurdod. Roedd y Cytundeb i fod i gael ei adolygu, ei ddiwygio neu ei addasu cyn iddo gyrraedd diwedd ei 5 mlynedd ar ddiwedd Mawrth 2019.

Awgrymodd Swyddog yr AHNE (HS) y gallai ef a'r swyddogion cyfreithiol ddiweddaru'r ddogfen i adlewyrchu rhai mân newidiadau, a'i chyflwyno eto yng nghyfarfod nesaf y Cyd-bwyllgor.

**PENDERFYNWYD:**
**Y byddai Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd a Swyddog yr AHNE yn diweddaru cytundeb Cyfreithiol y Cyd-bwyllgor ac yn cyflwyno'r fersiwn derfynol yn y cyfarfod nesaf i gael ei fabwysiadu am y pum mlynedd nesaf.**

## 6 CYDWEITHIO GYDA BWRDD SAFLE TREFTADAETH Y BYD - DATGANIAD O FWRIAD AR Y CYD AC YMWELIAD MAES POSIBL DROS YR HAF

Cynigiodd Swyddog yr AHNE (HS) y dylid trefnu cyfarfod rhwng Cadeiryddion y Cyd-bwyllgor a Bwrdd Safle Treftadaeth y Byd, er mwyn cytuno ar ddatganiad o fwriad ar y cyd i adlewyrchu'r berthynas waith.

**PENDERFYNWYD:**
**Y byddai Swyddog yr AHNE yn trefnu cyfarfod rhwng Cadeirydd y Cyd-bwyllgor a Chadeirydd Bwrdd Safle Treftadaeth y Byd.**

## 7 DEDDF CEFN GWLAD A HAWLIAU TRAMWY 2000 ADRAN 85 Y WYBODAETH DDIWEDDARAF

Bu i Swyddog yr AHNE (HS) adrodd am gyfarfod cadarnhaol gyda Dŵr Cymru i gytuno ar gynllun tirlunio ar gyfer gwaith trin dŵr islaw'r draphont ddŵr yn Nhrefor, sydd bellach yn gofyn iddo ymgysylltu â Chyfoeth Naturiol Cymru.

Wrth i Scottish Power Energy Networks gynnal gwaith diweddaru llinellau trydan tanddaearol, nodwyd bod nifer o ardaloedd newydd yn cael eu hystyried, gan gynnwys Y Mwynglawdd. Mae llinell y Grid Cenedlaethol o Legacy i Nercwys, sydd union y tu allan i ffin yr AHNE, yn aros am gymeradwyaeth ar hyn o bryd.

**PENDERFYNWYD:**
**Nodi'r wybodaeth ddiweddaraf.**

## 8 LLYTHYR/CYFARFOD CYFLEOEDD ARDAL O HARDDWCH NATURIOL EITHRIADOL GENERIG O FEWN AWDURDODAU LLEOL

Cafwyd esiamplau gan Swyddog yr AHNE (HS) o broblemau gydag arwyddion ledled yr ardal a allai fod wedi elwa o ymgynghoriad â'r Cyd-bwyllgor. Awgrymodd y gellid amlygu rôl y Cyd-bwyllgor drwy i'r Cadeirydd ysgrifennu at Awdurdodau Lleol neu drwy gynnal cyfarfod rhwng Aelodau a swyddogion i rannu gwybodaeth am bynciau penodol, fel y gwelwyd gyda'r prosiect Awyr Dywyll.

Cytunodd y Cadeirydd y dylid cymryd y ddau gam hyn.

**PENDERFYNWYD:**
**Y byddai Swyddog yr AHNE yn trefnu i anfon llythyr gan y Cadeirydd i Awdurdodau Lleol a chynnal cyfarfodydd rhwng Aelodau Arweiniol a swyddogion fel y bo'n briodol.**

## 9 Y DIWEDDARAF AM EIN PROSIECT TIRWEDD HARDD

Cafwyd cyflwyniad gan Kate Thomson, Swyddog Partneriaeth Ein Tirwedd Hardd Cronfa Dreftadaeth y Loteri, ar y cynnydd a wnaed ar y prosiect pum mlynedd sy'n canolbwyntio ar Ddyffryn Dyfrdwy. Dyma'r prif bwyntiau:

- Roedd Kate yn un o dri o swyddogion yn y tîm sydd wedi'i leoli ym Mhlas Newydd.
- Roedd y rhaglen waith yn cynnwys prosiectau ar gyfer pob un o'r pum mlynedd, gyda rhai'n cael eu dwyn ymlaen wrth i gyllid ddod ar gael.
- Rhannwyd gwybodaeth am waith cadwraeth oedd yn defnyddio gwirfoddolwyr a thimau Cefn Gwlad i wella golygfeydd a mynediad, gan gyflawni buddion amgylcheddol ar yr un pryd.
- Ymgysylltu â grwpiau cymunedol i blannu coed a gwella'r coetir, gyda chanolbwynt y dyfodol ar reoli'r cynllun coetiroedd.
- Cydweithio â phobl leol drwy'r fenter 'Cysylltu pobl â Thirwedd Hardd'.
- Gwella mynediad i'r Glyn ym Mhlas Newydd ac adfer y nodweddion allweddol o'r cyfnod pan oedd Merched Llangollen yn byw yno.
- Defnyddio gwaith celf a gomisiynwyd o ardal y prosiect er dibenion hyrwyddo.

**PENDERFYNWYD - y dylid nodi'r cyflwyniad.**

## 10 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL

Cyflwynodd Rheolwr yr AHNE (HS) y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol, gan adrodd ar y prif eitemau ar y rhaglen. Y prif bwyntiau o ddiddordeb oedd:

- O ran cynllun rheoli'r AHNE, rydym yn aros am gyngor gan Gyfoeth Naturiol Cymru a gallai pwysau ar y gyllideb arwain at fod angen cyfraniadau ariannol gan Lywodraeth Cymru.
- Cafwyd nifer dda o fynychwyr yn Fforwm AHNE Llanrhaeadr Springs.
- Roedd y prosiect Newid Hinsawdd wedi'i oedi ar hyn o bryd, ond roedd yn dal i fod yn ddyhead.

- Llinellau rhwydwaith SP – rhoddwyd esiampl o gynlluniau posib ym Mhlas Newydd a llwybr Clawdd Offa.

Tynnwyd sylw at wybodaeth am brosiectau oedd yn cael eu cynnal gan bob un o'r gweithgorau partneriaeth, gan ddefnyddio'r cyllid a ddyrannwyd. Bu i Swyddog Cynorthwyol yr AHNE (DS) adrodd bod y Grŵp Rheoli Tir wedi comisiynu ffilm oedd yn amlygu pwysigrwydd coed ynn i'r dirwedd, ac arolwg o'r awyr i dynnu lluniau Dyffryn Alyn yn Loggerheads er mwyn monitro effaith y clefyd coed ynn.

Aeth Swyddog yr AHNE (HS) yn ei flaen i nodi bod prosiect gan y gweithgor Deall a Mwynhau yn cynnwys gwaith adfer tair camfa garreg ger Cilcain. Yn dilyn pryderon a godwyd gan y Cynghorydd David Kelly am gamfeydd carreg hanesyddol ger Y Mwynglawdd nad oeddent yn cael eu gwarchod gan Cadw, nododd y swyddog bod cynllun rheoli'r AHNE yn ceisio cydnabod pwysigrwydd cadw nodweddion hanesyddol o'r fath yn y dirwedd.

**PENDERFYNWYD – Nodi'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol.**

## 11 DYDDIADAU CYFARFODYDD Y DYFODOL 2019

21 Mehefin 2019 yn Rhuthun
22 Tachwedd 2019 yn Wrecsam

Dywedodd y Cadeirydd y byddai ef a Swyddog yr AHNE yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor am eu cyfarfod gyda Chadeirydd AHNE Llŷn.